



Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddHealth@senedd.cymru

18 Chwefror 2022

Annwyl Russell

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a osodwyd ar 15 Chwefror ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 2 a Rhif 3) (y SLCMs) ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y Bil).

Rwyf yn nodi sylwadau'r Pwyllgor ar y Bil a'r SLCMs a osodwyd ar 17 Rhagfyr 2021 a 28 Ionawr yn eu trefn ac yn croesawu cadarnhad y Pwyllgor nad yw'n gwrthwynebu bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i gynnwys y canlynol yn y Bil:

- Cymalau 122–125 a diwygiadau 231H, 231J, 231L, 313ZA, 313ZB, 313ZE, 313ZJ, 313ZK a 313ZM (Profion gwryfydod a Hymenoplasti);
- Cymal 143 (Archwilwyr Meddygol);
- Diwygiadau 312B, 312C, 312D, 313C a 314ZB (Adroddiadau Gorfodol);
- Cymalau 88-94 a diwygiadau 231C, 227A, 231A a 231B (Cyffff Hyd Braich (Trosglwyddo Swyddogaethau))

Gweler fy ymatebion i'ch argymhellion penodol isod.

Argymhelliad 1 – Cymal 135 (Ad-daliad i Fferyllfeydd Cymunedol)

Cyn y gofynnir i'r Senedd a ddylai roi ei chydysyniad i gymal 135 (ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol), dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi sicrwydd: na ellir ond defnyddio'r pwerau hyn mewn amgylchiadau pan fydd pandemig neu argyfwng iechyd cyhoeddus wedi'i ddatgan, ac y gweithredir yn unol â hyn; ac y bydd y defnydd o bwerau o'r fath yn cael ei ategu gan dâl ac ad-daliad priodol a digonol i gontractwyr fferyllol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb

Gellir defnyddio'r pwerau hyn mewn amgylchiadau heblaw pandemig neu argyfwng iechyd y cyhoedd, er enghraifft, mewn perthynas â chyffuriau a meddyginiaethau lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod risg y daw clefyd yn glefyd pandemig neu a ddefnyddir i frechu neu imiwneiddio pobl rhag clefyd yn gyffredinol.

Er hynny, gall y Pwyllgor fod yn sicr nad yw cymal 135 mewn unrhyw ffordd yn newid y trefniadau presennol i fferyllfeydd gael cydnabyddiaeth ariannol am wasanaethau a ddarperir. Mae'r cymal yn ymwneud yn unig â chostau a ysgwyddir gan fferyllfeydd wrth gaffael cynhyrchion meddyginiaethol i'w defnyddio mewn brechu ac imiwneiddio. Yn y sefyllfa y mae'r cymal yn ymwneud â hi ni fydd fferyllfeydd wedi ysgwyddo unrhyw gostau wrth gaffael y cynhyrchion meddyginiaethol ac o'r herwydd ni fyddai'n briodol ad-dalu costau iddynt.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor nad oes unrhyw fwriad i osgoi neu danseilio trefniadau presennol ar gyfer cadwyni cyflenwi. Er mai mewn pandemig neu argyfwng iechyd y cyhoedd y defnyddir y pwerau hyn yn bennaf ni fyddai'n briodol gwrthod y cyfle i'w defnyddio mewn amgylchiadau cyfyngedig eraill.

Yn nau dymor diwethaf y fflw mae Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Llywodraethau eraill y DU, wedi sicrhau cyflenwad ychwanegol o frechiadau'r fflw. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod bod angen i lywodraethau rannu risgiau caffael â chontractwyr annibynnol megis fferyllfeydd ac Ymarferwyr Cyffredinol. Pe na bai Llywodraeth Cymru wedi prynu'r cyflenwadau ychwanegol hyn, byddai llai o bobl wedi cael eu brechu am nad oedd yr archebion a gafodd eu gosod gan fferyllfeydd ac Ymarferwyr Cyffredinol yn ddigon i fodloni'r galw. Yn nifyg y pwerau hyn roedd angen i'r stoc ychwanegol gael ei gwerthu i'r gadwyn gyflenwi bresennol ac i fferyllfeydd eu prynu gan ysgwyddo'r risg ariannol eu hunain. Gallai'r pwerau a gynhwysir yng nghymal 135 gael eu defnyddio, felly, i leihau'r risg ariannol i fferyllfeydd a chynyddu cyfraddau brechu mewn unrhyw dymor y fflw.

Argymhelliad 2 - Cymal 87: Systemau Gwybodaeth am Feddyginiaethau

Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r amserlenni a ragwelir ar gyfer datblygu a chytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth am feddyginiaethau, a dylai roi sicrwydd y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn weithredol cyn i'r darpariaethau ddod i rym.

Ymateb

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â Systemau Gwybodaeth am Feddyginiaethau yn cael ei symud ymlaen. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn gwneud ei gorau glas i gael y Memorandwm yn ei le cyn i'r darpariaethau gael effaith, ond fan bellaf cyn i'r rheoliadau gael eu drafftio.

Argymhelliad 3. - Diwygiadau Canlyniadol (cymalau 91, 144 a 149)

Cyn y gofynnir i'r Senedd benderfynu a yw am gydsynio i gynnwys cymalau 91, 144 a 149 yn y Bil, dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gadarnhau bod Gweinidog Gwladol dros lechyd y DU wedi gwneud y datganiad y cytunwyd arno yn siambr Tŷ'r Cyffredin.

Ymateb

Gallaf gadarnhau bod Edward Argar AS, y Gweinidog Gwladol dros lechyd, trwy'r Arglwydd Kamall, wedi gwneud y datganiad ger bron y blwch dogfennau mewn perthynas â chymalau 91 a 149, ar sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn. Gwnaed y Datganiad yn

Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Chwefror. Bydd y Pwyllgor am nodi, fel y datganwyd yn y LCM a osodais ar 1 Medi, nad yw Llywodraeth y DU wedi nodi cymal 144 fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd, ac felly, ni chafodd ei gynnwys yn y Datganiad ger bron y Blwch Dogfennau.

Yn olaf, nodaf mewn perthynas ag Archwilwyr Meddygol, fod gan y Pwyllgor bryderon am y defnydd cynyddol o LCMs fel mecanwaith ar gyfer deddfu ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru (mae paragraff 30 yn cyfeirio at hyn). Hoffwn egluro, mewn perthynas ag achos penodol cymal 143 (Archwilwyr Meddygol) na fyddai modd i'r Senedd wneud darpariaeth gyfatebol i Gymru yn y maes hwn gan fod pwnc Rhan 1 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ("Deddf 2009"), lle y mewnosodir y ddarpariaeth hon, yn cael ei gadw yn ôl gan baragraff 167 o atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, ni allai'r Senedd ddeddfu i fewnosod darpariaeth gyfatebol i'r adran 18B newydd yn Neddf 2009.

Hyderaf y bydd yr ymateb hwn o gymorth i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services